Dyma ddrafft o hysbyseb. Mae angen ei darllen yn ofalus gan fod ynddi nifer o wallau iaith a bylchau.

**Diwrnod agored**

Y GANOLFAN HAMDDEN NEWYDD
16 stryd y go, Abermawr

*Dydd Sadwrn, Mehefin 16*

Bydd y ganolfan hamdden newydd yn agor i'r cyhoedd ddydd Sadwrn, Mehefin 16 ……… mae llu o weithgareddau wedi eu trefnu ar eich cyfer:

| **Beth** | **Ble** | **Pryd** |
|---|---|---|
| Taith o gwmpas y ganolfan a'r caeau chwarae yng nghwmni aelod o staff | o'r cyntedd | bob chwarter awr |
| Sesiwn "Dewch i drio!"<br>Jwdo<br>Tai chi | y gampfa | <br>11.30am<br>12.30pm |
| Sesiynau cadw'n heini | y gampfa | 11.00am |
| Sesiwn pel-foli - i bawb | y gampfa | 2.00pm |
| Gala nofio | y pwll nofio | 12.00 |
| Agoriad y Caban Chwarae - yng nghwmni Gari Gemau - i'r plant lleiaf | y Caban Chwarae | 3.00pm<br>1.00pm |

Mae'r gweithgareddau yma i gyd yn rhad ac am ddim yn ystod y Diwrnod Agored. Hefyd - am bris rhesymol - bydd dewis ardderchog o fwyd iach ar gael yn ein tŷ bwyta modern.

Yn ystod y dydd, bydd cystadleuaeth arbennig yn cael ei chynnal - sef meddwl am enw da ar gyfer y ganolfan hamdden. . . . . . . . . . . . . .  . . . n cael cyfle i ysgrifennu'ch syniad ar bapur a'i gyflwyno i aelod o staff wrth y dderbynfa cyn tri o'r gloch. Yna, bydd panel yn darllen yr holl gynigion ac yn penderfynu ar yr enw gorau. Bydd enw'r enillydd ac enw newydd y ganolfan yn cael . . .   . . . . . . . . . . . . am bump o'r gloch - ar ddiwedd y gala nofio.

Y wobr i'r enillydd: Aelodaeth am ddim am flwyddyn!

Dewch yn llu! Byddwch chi'n siwr o gael hwyl